



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Llwybrau Coedwig
Forest Trails



Coedwig Pen-bre Pembrey Forest

// Archwiliwch goedwig arfordirol sy'n
llawn bywyd gwylt a threftadaeth
Explore a coastal forest full of
wildlife and heritage



cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales



**Cymru
Wales**



Welcome to Pembrey Forest, one of Britain's unique sand dune forests full of wildlife and heritage

Stabilising shifting sands.

The Forestry Commission planted Pembrey Forest, like Newborough's coastal forest on Anglesey, as part of its programme of replacing woods cut down during the two World Wars. This was to create a 'strategic reserve' of timber.

Here the trees helped stabilise shifting sand dunes threatening neighbouring farmland. In Newborough's case, the moving dunes had threatened a village. But sand dunes are better for wildlife when they are free to move – which we now take into consideration in planning the forest's future.

Croeso i Goedwig Pen-bre, un goedwigoedd tywni tywod unigrye Prydain sy'n llawyn of fywyd gwyllt a threftadaeth.

Sefydlogi'r twyni tywod.

Fe blannodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru Coedwig Pen-bre, fel coedwig arfordirol Niwbwrch ar Ynys Môn, fel rhan o'r rhaglen ailblannu coed cafodd eu cwmpo yn ystod y ddau Ryfel Byd. Roedd hyn er mwyn creu 'cronfa wrthgefn'o bren.


Yma, fe wnaeth y coed helpu i sefydlogi'r twyni tywod oedd yn bygwth tir fferm gyfagos. Yn achos Niwbwrch, roedd y twyni wedi bygwth pentref. Ond mae twyni'n well ar gyfer bywyd gwyllt pan fyddant yn rhydd i symud – ac rydym yn ystyried hyn wrth gynllunio dyfodol y goedwig.

© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Chwefror 2019

© Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – February 2019



 Coedwig Pen-bre
Pembrey Forest

 Rhodfa Ieir Bach yr Haf
Butterfly ride







 Ffatri arfau rhyfel
Ammunition factory













 Coed Pen-y-Bedd
 Wood

 Maes picnic Llennyrch
Glades picnic area

Man cychwyn y llwybr
Trail start

Maes Parcio 1
Car Park 1


Parc Gwledig Pen-bre Pembrey Country Park
    

-  parcio parking
-  toiledau toilets
-  canolfan ymwelwyr visitor centre
-  ffin coedwig CNC NRW forest boundary
-  ffyrdd coedwig forest roads
-  llwybrau cerdded walking trails
-  llwybr cyhoeddus public footpath
-  maes chwarae play area
-  caffi café
-  lle picnic picnic area
-  Taith Sant Illtud Saint Illtyd's Walk
-  Llwybr Arfordir Cymru Wales Coast Path

Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi Hawlfraint y Goron. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100019741

This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100019741



Cymedrol | Moderate

Pellter | Distance: 4m | 6.5km

Amser | Time: 2½ awr | hours

Dringo | Climb: 100m

Llwybr Pinwydd a Seiliau: 1



Wnewch chi ddim dod o hyd i lawer o gregyn môr ar y llwybr hwn, ond mae i'r lle orffennol ffrwydrol.

Defnyddiwyd rhannau o'r goedwig i wneud ffrwydron ar gyfer cynhyrchu sielau mewn ffatri ffrwydron adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r llwybr yn dilyn rhai o draciau helaeth trên y ffatri - mae gyda ni hyd yn oed blatfform gorsaf yn y goedwig! Mae llawer o'r byncars bach a'r twneli chwyth crom yn dal yma 100 mlynedd yn ddiweddarach. Rydym wedi cau mynedfeydd rhai ohonyn nhw er mwyn darparu cartrefi i ystumod trwyn pedol.

Mae'r llwybr yn dilyn yr arfordir am oddeutu milltir cyn dod i mewn i'r tir. Wrth i chi ddringo twyn, cadwch lygad ar agor am degeirianau sy'n tyfu ar hyd y llwybr ar ddiwedd y gwanwyn/gynnar yn yr haf.

Mae yna fyrddau picnic a meinciau ar hyd y llwybr lle gallwch aros a gorffwys a mwynhau'r goedwig.

Caiff taith y glöyn byw ei reoli er mwyn annog tyfiant y gymysgedd ddi-ddorol o flodau a phlanhigion gwyllt sy'n denu amrywiaeth eang o löynnod byw a gwenyn, ac yn eu plith pennau blodau lelog-las Tamaid y Cythraul.

Mae rhan olaf y daith yn mynd trwy'r hen ffatri ffrwydron, cyn dychwelyd i'r man cychwyn.



Pines and Shells Trail: 1



You won't find many sea shells on this trail, but it does have an explosive past.

Parts of the forest were used to make explosives for shell production in a World War I ammunition factory. The route follows some of the extensive factory train tracks - we even have a station platform in the forest! Many of the small bunkers and curved blast tunnels are still present 100 years on. We have bricked up the entrances of some of them to provide homes for horseshoe bats.

The trail follows the coast for about a mile before coming inland. As you climb a dune keep an eye-out for orchids lining the path in late spring/early summer.

There are picnic tables and benches along the route to stop and rest and enjoy the forest.

The butterfly ride is managed to encourage the interesting mix of wild flowers and plants which attract a wide variety of butterflies and bees including the lilac-blue flower heads of Devil's-bit scabious.

The final part of the walk goes through the old ammunition factory, before returning to the start.





Llwybr Pinwydd a Seiliau: 2

Cychwynnwch ar y llwybr o Faes Parcio 1, gan droi i'r dde o'r traeth i ddilyn y llwybr marchogaeth llydan a syth. Ar yr olwg gyntaf, gall hyn ymddangos i fod yn gychwyn eithaf anniddorol ond mae'r glaswellt yn disgleirio yn yr haf gyda blodau o fwcog, briwydd felen, tag yr aradr a them.

Wrth arwydd CNC, mae'r llwybr yn gadael y Parc Gwledig ac yn mynd i mewn i'r goedwig. Dilynwch yr arwyddion coch tuag at y pwll neu ddilyn llwybr i'r chwith i fyny'r grisiau at fan gwylio er mwyn gweld golygfa o'r môr yn ymestyn o Ddinbych-y-pysgod ac Ynys Bŷr yn y gorllewin hyd at y Gŵyr ac ar draws aber Afon Llchwyr tua'r de. Mae Bryn Llanmadog sy'n hir ac yn foel i'w weld yn amlwg yn erbyn y gorwel. Ewch yn ôl ar hyd yr un ffordd er mwyn ail-ymuno â'r llwybr.

Parhewch ar hyd y llwybr sydd ag arwyddion â'r opsiwn o ymweld â'r man gwylio adar ac yna

ymunwch â'r rhodfa hir, syth a thywodlyd sy'n mynd ar hyd glan y môr. Ar ôl 500m mae'r rhodfa'n croesi trac caregog ac i'ch chwith mae maes picnic 'Llennyrch'. Mae'r safle yn boblogaidd gyda llwybr i'r traeth.

Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr syth a thrwy gyfres o fannau agored yn y twyni, y mae rhai ohonynt wedi eu meddiannu gan blanhigion fel yswyd, cotoneaster, y ddraen wen, ac mae gan un brysgoed o gyll.

Rydych nawr wedi cyrraedd rhodfa y blodau sy'n gorwedd yn fras o'r dwyrain i'r gorllewin ac yn heulog drwy'r dydd. Mae'r planhigion blodeuol cyffredin i gyd yn hoff o'r haul ac â blodau melyn: briwydd felen, cribell felen - (mae pen yr hedyn ar ôl cael ei sychu yn ratlo wir i chi) - a melyn yr hwyr, efallai y blodau mwyaf ysblennydd ledled y coedwigoedd ar ddiwedd yr haf.

Pines and Shells Trail: 2

Start the trail from Beach Car Park 1, turning right from the beach to follow the wide, straight woodland ride. At first sight, this may seem a rather uninteresting start but the turf gleams in summer with flowers of burnet rose, ladies bedstraw, rest harrow and thyme.

At the NRW sign the trail leaves the Country Park and enters the forest follow the red waymarkers towards the pond or follow a path to the left up the steps to a viewpoint for a marvellous seascape extending from Tenby and Caldey Island in the west to Gower across to the Loughor Estuary to the south. The long bare Llanmadoc Hill dominates the skyline. Retrace your steps to rejoin the trail.

Continue along the waymarked trail with the option to visit the bird hide and then join the

long straight sandy ride which runs parallel to the coast. After 500m the ride crosses a stoney track and to your left is 'The Glades' picnic area. It's a popular picnic site and has a path to the beach.

Continue along the straight trail through a series of dune 'slacks' or open areas, some of them colonised by plants like privet, cotoneaster, hawthorn and one has a thicket of hazel.

You now reach the flower ride which lies roughly east to west and is sunlit all day. The commonest flowering plants are all sun loving and yellowflowered: ladies bedstraw, yellow rattle - (the dried seed-heads really do rattle) - and evening primrose, perhaps the most spectacular flower in late summer throughout these woods.





Llwybr Pinwydd a Seiliau: 3

Dechreuwch y daith yn ôl ar hyd ffordd drwy'r goedwig. Gwyrwch i'r gogledd ddwyrain a dechreuwch ddringo er mwyn croesi twyn hir.

Mae gan yr ardal hon wasgariad o goed derw ifanc naturiol a chen llwydd - wynnaidd (*Cladonia rangiformis*) ar wyneb y twyn, sy'n disgleirio yn y cysgodion. Wrth droi i'r deddwyrain tuag at y safle picnic mae'r llwybr yn mynd fewn i Rodfa Ieir Bach yr Haf.

Mae Coedwig Pen-bre yn enwog am ei ieir bach yr haf ac mae Rhodfa Ieir Bach yr Haf yn un o'r mannau gorau yn y goedwig. Fe recordiwyd tri deg un o wahanol rywogaethau o ieir bach yr haf yn yr ardal hon. Mae'r rhain yn cynnwys rhywogaethau lliwgar fel y blaen oren a'r peunog, a'r brithion patrymog rhyfeddol gan gynnwys y gwyrdd tywyll, brith arian ac yn achlysurol y brith y gors prin.

Rydym yn edrych ar ôl Rhodfa Ieir Bach yr Haf i annog planhigion bwyd lindys, iâr fach yr haf. Mae rhai lindys yn bwydo ar blanhigion sy'n tyfu ar

ddaear galed felly rydym yn styrbio ar ddarnau o bridd er mwyn darparu gwe felen ar gyfer yr iâr fach yr haf bach glas a mefus gwyllt ar gyfer y gwibiwr brith. Mae eraill angen glaswelltir llawn blodau a ddarperir drwy dorri'r glaswellt i greu cymysgedd o ardaloedd o laswellt byr a hir.

Gadewch Rodfa Ieir Bach yr Haf ar ôl a chroesi ffordd y goedwig nawr ewch fewn i'r ardal sy'n cael ei croesymgroesi gyda chyfres o hen lwybrau a thramffyrdd a fu unwaith yn gwasanaethu'r Ffatri (Bwledi) Ordnans. Mae rhai o'r bynceri gwreiddiol dal i fodoli ac yn awr yn gynefinoedd i ystumod. Yma ceir llawer mwy o bren mewndirol gyda choed talach, rhedyn, mieri a thoreth o blanhigion eraill. Mae'r mwcog pêr yn doreithiog fan yma, brodor o'r twyni tywod gyda ffrwyth crwn porffor - du yn yr hydref.

Os trowch i'r dde wrth arwydd CNC byddwch yn dychwelyd i'r man cychwyn gan ddilyn ffin y goedwig a'r parc gwledig sydd wedi ei nodi gan drac ar y ddwy ochr a ffos fach.

Pines and Shells Trail: 3

Begin the return along a forest road. Branch northeast and start climbing to traverse a long dune.

This area has a scattering of young naturally-sown oaks and a whitish-grey lichen (*Cladonia rangiformis*) on the dune faces, which gleams in the shadows. Turning southeast at the picnic site the trail enters the Butterfly Ride.

Pembrey Forest is famous for its butterflies and the Butterfly Ride is one of the best spots in the forest. Thirty-one different species of butterfly have been recorded in this area. These include brightly coloured species such as orange-tip and peacock, and the wonderfully patterned fritillaries including dark green, silverwashed and occasionally the rare marsh fritillary.

We look after the Butterfly Ride to encourage the food plants of butterfly caterpillars. Some caterpillars feed on plants which grow on bare ground so we disturb

patches of earth to provide kidney vetch for the small blue butterfly and wild strawberry for grizzled skipper. Others require the flower-rich grassland provided by mowing to create a mix of shorter and longer grass areas.

Leaving the Butterfly Ride behind and crossing the forest road now enter an area criss-crossed by a series of old tracks and tramways which once served the Ordnance (ammunition) Factory. A few of the original bunkers still exist and now make bat habitats. The character is much more of an inland wood with taller trees, ferns, brambles and other plants in profusion. The sweet-scented burnet rose is prolific here, a native of the sand dunes bearing purple-black round fruits in autumn.

Turning right, by the NRW sign you return to the start following the boundary of the forest and country park which is marked by a track on both sides and a small ditch.





Dofi'r gwynt

Blannwyd Pen-bre gan y Comisiwn Coedwigaeth rhwng 1929 a 1954 a fu'n rhaid dod o hyd i dechnegau arloesol i ymdopi â'r amodau tyfu dyrys. Cododd gweithwyr coedwig 'ffensys' o ganghennau i drapio'r tywod oedd yn cael ei chwythu o'r traeth ac yna plannu miloedd o blanhigion glaswellt Moresg i rwymo'r tywod gyda'u gwreiddiau oedd yn lledaenu'n gyflym.

Ymhellach i mewn i'r tir fe greodd y gweithwyr rhwystr naturiol gyda

chryswth o blannu o'r llwyn Helygen y Môr oedd yn lledaenu'n rhemp. Yna fe wnaethant ddefnyddio canghennau i dal y twyni i lawr mewn dull 'to gwellt' a phlannu coed pinwydd bach yn y bylchau. Fe geisiodd Coedwigwyr blannu sawl math o goed fan yma ond yr un mwyaf llwyddiannus o bell ffordd oedd y pinwydd Corsica. (*Pinus nigra var maritima*).

Taming the Wind

The Forestry Commission had to come up with innovative techniques to cope with the tricky growing conditions. Forest workers put up 'fences' made from branches to trap sand blowing from the beach and then planted thousands of Marram grass plants to bind the sand with their rapidly spreading roots.

Further inland the workers created a natural barrier with mass

plantings of the rampant spreading shrub Sea buckthorn. They then 'thatched' the dune with wired down branches and planted tiny pine trees in the gaps between. Foresters tried many types of tree here but the most successful by far was the Corsican pine (*Pinus nigra var maritima*). They planted Pembrey between 1929 and 1954.

Lloches i fywyd gwyllt

Grizzled skipper © Zeynel Cebeci



Mae Coedwig Pen-bre yn lloches i fywyd gwyllt ac yn gartref i amrywiaeth eang o blanhigion. Mae'r rhain

yn cynnwys tegeirianau cors, gefellys, tegeirian gwenwynig a choedwyrdd crynndail a bychan.

Mae gennym 31 o rywogaethau o ieir bach yr haf gan gynnwys cofnodion o frith y gors (prin iawn), iâr fach glas, gwibiwr llwyd, brith arian ac un o'r 3 unig nythfa o wibwyr brith yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda Ymddiriedolaeth Cadwraeth Pen-bre i ofalu am ardaloedd o'r goedwig er mwyn helpu pili-palod a gwyfynod.

Wildlife haven



Pembrey Forest is a wildlife haven and home to a wide variety of plants. These include marsh orchids, twayblade, bee orchids and common and roundleaved wintergreen.

We have 31 species of butterfly including recordings of marsh fritillary (very rare), small blue, dingy skipper, silverwashed fritillary and one of only 3 colonies of grizzled skipper known in Wales. We work with Pembrey Conservation Trust to look after areas of the forest to help butterflies and moths.



Ffatri Bomiau ym Mhen-Pre?

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd safle arfau (arfau milwrol fel gynnau a bomiau) anferth, 700 acer ym Mhen-bre. Roedd yn un o'r mwyaf yng Nghymru ac roedd yn cynhyrchu dynameit, TNT a thanwydd. Roedd yn cynnwys cyfres o ffatrioedd arfau mawr a storfeydd arfau - roedd dros 400 o adeiladau!

Dechreuodd Stowmarket Explosives wneud ffrwydron yng nghanol y twyni tywod yn y 1880au ond caeodd hwn ar ôl i ffrwydrad ladd 7 o bobl. Adeiladodd Nobel's Explosives Manufacturing Ltd ffatri ar y safle hwn a chafodd ei gwladoli yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Adfeilion Ffatri Arfau Pen-bre ar hyd y ffordd

Fe welch sawl twnnel mynediad i'r tai cymysgu *cordeit* blaenorol ble roedd y *cotwm nitrig sych* (cynnryrch ffrwydrol iawn) a nitroglycerine yn cael eu cymysgu i greu *cordeit* (a ddefnyddiwyd i yrru gwn neu fwled i'w darged - tanwydd).

Mae gan y twneli mynediad hyn, sydd wedi euleinio â briciau, doeon allan

o slabiau concrit, ac fe welch bod gan un lawr concrit gydag olion trawstiau pren. Mae ail dwnnel mynediad ar ochr arall y lloc yn fwy cul ac mae'n debyg mai mynediad i weithwyr yn unig ydoedd ac nid i ddeunyddiau.

Roedd yr adeiladau wedi eu gorchuddio â thywod a gwair er mwyn lleihau'r effaith pe byddai ffrwydrad. Roedd y ffaith eu bod wedi eu gorchuddio â thywod yn ei gwneud hi'n anodd i awyrennau bomio'r Almaenwyr eu gweld o'r awyr.



Bomb Factory at Pembrey?

During World War I, there was a huge 700-acre munitions (military weapons such as guns and bombs) site at Pembrey. It was one of the largest in Wales, producing dynamite, TNT and propellant. It included a series of large munitions factories and weapons stores - over 400 buildings!

Stowmarket Explosives first started making explosives amongst the sand dunes in the 1880's but this closed after an explosion killed 7 people. Nobel's Explosives Manufacturing Ltd built a factory on this site which went on to be nationalised during the First World War.

Pembrey Munitions Factory remains along the walk

You'll see tunnel entrances to the former *cordite* mixing houses where the dried *guncotton* (a highly explosive product) and nitroglycerine were mixed to create *cordite* (used to propel a gun or bullet to its target - a *propellant*).

These brick-lined entrance tunnels have concrete slabbed roofs, and one you'll see has a concrete floor with the impression of wooden sleepers. A second access tunnel on the opposite side of the enclosure is narrower and was likely access for workers only, not materials.

The buildings were covered in sand and grass to minimise the impact should an explosion occur. The fact that they were covered with sand made them difficult for German bombing planes to see them overhead.



Menywod yn bwydo'r ymdrech ryfel â thanwydd

Cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd, credwyd mai yn y tŷ y dylai'r fenyw fod. Chwaraeodd menywod ran fawr yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Pan aeth y dynion i'r rhyfel, camodd y menywod i'r swyddi oedd wedi eu gadael yn wag.

Yma ym Mhen-bre, o 1916 cafodd dros 3000 o fenywod eu cyflogi ar lawr y ffatri, gan wneud tasgau peryglus fel llenwi sieliau.

Uffern yng Nghymru?

Dyma rai darnau o ddyddiadur **Gabrielle Mary West**, goruchwyliwr yn y ffatri, i roi blas i ni ar sut beth oedd gweithio yma:

"Mae cyfleusterau'r ffatri hon yn wael o ran lles y merched. Mae'r ystafelloedd newid yn frawychus o lawn, ac mae cafnau hir yn o'n lle basnau ymolchi ac mae sebon a thywelion yn brin, drwy'r amser. Mae dillad perygl y merched yn aml yn frwnt ofnadwy ac wedi eu rhacio... Tan yn ddiweddar doedd dim goleuadau yn y toiledau a chan fod y toiledau hyn fel arfer yn llawn llygod mawr ac yn aml yn frwnt iawn, mae ar y merched ofn mynd mewn."

"Mae'r ether yn y cordit yn effeithio ar rai o'r merched. Mae'n rhoi pennau tost neu hysteria iddyn nhw ac weithiau'n eu gwneud yn anymwybodol."

"Mae'r TNT yn drewi, does dim gair arall i'w ddisgrifio, arogl cas, chwydlyd, taglyd sy'n gwneud i chi besyachu tan eich bod yn teimlo'n sâl... Ond weithiau mae'r tarth yn golygu 16-18 o gleifion y nos a dim ond 4 gwely sydd yn y syrjery."

"Mae'r aer yn llawn tarth gwyn a tharth melyn a tharth brown. Mae'r dafnau o asid yn glanio ar eich wyneb ac yn eich gyrru bron o'ch cof oherwydd y teimlad cryf o binnau bach, ac maen nhw'n glanio ar eich dillad ac yn creu smotiau brown drostyn nhw ac yn pydru eich hancesi nes eu bod yn dod nôl o'r golch yn rhacs, ac maen nhw'n mynd fynd eich trwyn ac i lawer eich gwddf ac i mewn i'ch llygaid nes eich bod yn ddall ac yn fud erbyn i chi ddianc... Bob tro yr ydych yn gadael yr Adran Ganol, rydych yn teimlo fel Dante yn dychwelyd o Uffern."

Gabrielle Mary West



Women fuel the war effort

Before the outbreak of the first World War it was believed that a woman's place was in the home. Women played a major role in World War I. When the men went off to war the women stepped up to take on the jobs left empty.

Here at Pembrey, from 1916 over 3000 women were employed on the shop floor, undertaking dangerous tasks such as filling shells.

Hell in Wales?

Some diary extracts from **Gabrielle Mary West**, a supervisor at the factory, give a flavour of what it was like to work here:

"This factory is very badly equipped as regards the welfare of the girls. The changing rooms are fearfully crowded, long troughs are provided instead of wash basins and there is always a scarcity of soap and towels. The girls' danger clothes are often horribly dirty and in rags... There were until recently no lights in the lavatories and as these same lavatories are generally full of rats and often very dirty, the girls are afraid to go in."

"The ether in the cordite affects some of the girls. It gives them headaches, hysteria and sometimes makes them unconscious."

"The TNT stinks, no other word describes it, an evil sickly chokey smell that makes you cough until you feel sick... Although the fumes mean 16-18 casualties a night there are only 4 beds in surgery."

"The air is filled with white fumes and yellow fumes and brown fumes. The particles of acid land on your face and make you nearly mad with a feeling like pins and needles, only more so, and they land on your clothes and make brown spots all over them, and they rot your hankies so that they come back from the laundry in rags, and they get up your nose and down your throat and into your eyes so that you are blind and speechless by the time you escape... Each time you leave the Middle Section, you feel like Dante returning from Hell."

Gabrielle Mary West



Gwaith angheuol

Ym mis Gorffennaf 1917, cafwyd ffrwydrad anferth ar y safle a lladdwyd chwe gweithiwr – 4 dyn a 2 fenyw – yn syth. Daeth y cwest i'r casgliad nad oedd modd gwybod beth oedd achos y ffrwydrad.

Er bod pedwar dyn wedi colli eu bywydau, angladd y ddwy fenyw - Mildred Owen, 18 oed a Mary Watson oedd yn 19 oed – ddenodd y dorf fwyaf. Gosodwyd Jac yr Undeb ar eu heirch a galarwad eu cydweithwyr yn y

ffatri arfau, yr oedd rhai ohonynt yn eu gwisg swyddogol.

Cyfansoddodd un cydweithiwr gerdd i gofio'r ddwy fenyw, cerdd oedd yn gorffen â'r geiriau.

**'...Galarwn ac fe ganwn gân
I ddiolch ac i roi mawrhad
Am ferched a roddodd fywyd glân
Dros y Brenin a thros eu gwlad'**



A deadly job

In July 1917 an enormous explosion rocked the entire site and six workers – 4 men and 2 women – were instantly killed. The subsequent inquest decided that the cause of the explosion was unknown.

Although four men lost their lives, it was the funeral of the two female victims: 18 year old Mildred Owen, and 19 year old Mary Watson, that drew the largest crowd. Their coffins draped in the Union Jack, the girls

were mourned by their fellow munitions workers, some of whom wore their working uniform.

One fellow worker even composed a poem commemorating the two women, concluding.

**'...Their memory shall live for aye
And Wales shall honour it, and sing
The praise of those who gave their lives
For England's fighters and their king'**





Mae dyfodol Pen-bre yn edrych yn wych!

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cychwyn ar raglen o waith i 'agor' y goedwig. Byddwn yn cael gwared â rhai ardaloedd o goed conwydd i annog mwy o goed llydanddail a gadael i flodau gwyllt brodorol a phlanhigion eraill i ffynnu trwy adael fwy o olau i mewn. Drwy greu llennyrch fe fydd Coedwig Pen-bre yn dod yn fwy deniadol i fywyd gwyllt ac ymwelwyr.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymweliad!

Pembrey's future is looking bright!

Natural Resources Wales is 'opening up' the forest. We are taking out some areas of conifer trees to encourage more broadleaved trees and allow native wildflowers and other plants to flourish by letting more light in. By creating glades (open areas) Pembrey Forest will become more attractive to both wildlife and visitors.

We hope you enjoy your visit!



Sut mae cael hyd i ni

O gyfeiriad Cydweli ar yr A484 ger Porth Tywyn, dilynwch yr arwyddion am Barc Gwledig Pen-bre gan fynd yn eich blaenau o fynedfa'r Parc i'r Ganolfan Ymwelwyr.

0300 065 3000
cyfoethnaturaol.cymru
naturalresources.wales

How to find us

Follow the signs to Pembrey Country Park from the A484 road on the Kidwelly side of Pembrey, near Burry Port, then continuing from the park entrance to the Visitor Centre.

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda: ymholiadau@cyfoethnaturaolcymru.gov.uk
0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know:
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
0300 065 3000



Arwydd o goedwigaeth gyfrifol
 The mark of responsible forestry

Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®

Natural Resources Wales forests have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

Printed on 100% recycled paper



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
 Sponsored by
Welsh Government